

PRIFFYRDD, CYMRU

201- RHIF

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LLWYBR
CEFFYLAU (BR107) AR DIR YN
NHIRPENTWYS (BWRIAD I ADFER HEN
WEITHFEYDD MWYNGLODDIO BRIG YN
NHIRPENTWYS) TORFAEN) 201-**

<i>Gwnaed</i>	<i>201-</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>201-</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 a 253 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrd (Llwybr Ceffylau (BR107) ar Dir yn Nhirpentwys (Bwriad i Adfer Hen Weithfeydd Mwynglodio Brig yn Nhirpentwys) Torfaen) 201- a daw i rym ar ***** 201-.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr “y Cyngorau” (“*the Councils*”) yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr “y Gweithiwr Mwynau” (“*the Mineral Worker*”) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

mae i “llwybr ceffylau” yr un ystyr a roddir i “bridleway” yn adran 329(1) o Ddeddf 1990;

ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan sy'n dwyn yr enw “Gorchymyn Cau Priffyrd (Llwybr Ceffylau (BR107) ar Dir yn Nhirpentwys (Bwriad i Adfer Hen Weithfeydd Mwynglodio Brig yn Nhirpentwys) Torfaen) 201-” sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(1) 1990 p. 8. Diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Diwygiwyd adran 253 gan baragraff 13 o Atodlen 4 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) ac adran 11 o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p. 27). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

HIGHWAYS, WALES

201- NO.

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS
(BRIDLEWAY (BR107) ON LAND AT TIR
PENTWYS (PROPOSED RECLAMATION OF
FORMER OPEN CAST WORKINGS AT TIR
PENTWYS) TORFAEN) ORDER 201-**

<i>Made</i>	<i>201-</i>
<i>Coming into Force</i>	<i>201-</i>

The Welsh Ministers make this Order in exercise of their powers under section 247 and 253 of the Town and Country Planning Act 1990(1), make this Order

Title, Commencement and Interpretation

1. (1) The title of this Order is the Stopping Up of Highways (Bridleway (BR107) on Land at Tir Pentwys (Proposed Reclamation of Former Open Cast Workings at Tir Pentwys) Torfaen) Order 201- and it comes into force on ***** 201-

(2) In this Order:-

“bridleway” has the same meaning as given to it in section 329(1) of the 1990 Act;

“the Councils” (“y Cyngorau”) means the Council of the County Borough of Torfaen and the Council of the County Borough of Blaenau Gwent;

“the deposited plan” (“y plan a adneuwyd”) means the plan entitled “The Stopping Up of Highways (Bridleway (BR107) on Land at Tir Pentwys (Proposed Reclamation of Former Open Cast Workings at Tir Pentwys) Torfaen) Order 201- ” which accompanies this Order;

“the Mineral Worker” (“y Gweithiwr Mwynau”) means the person carrying out the development for which a planning permission has been granted;

“the 1990 Act” (“Deddf 1990”) means the Town and Country Planning Act 1990.

(2) 1990 c. 8 section 247 was amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19). Section 253 was amended by paragraph 13 of Schedule 4 to the Planning (Wales) Act 2015 (anaw.4) and section 11 of the Growth and Infrastructure Act 2013 (c. 27). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Cau Prifordd

2. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r darn o lwybr ceffylau er mwyn mwyngloddio mwynau drwy weithio ar yr wyneb ac er mwyn gwneud gwaith adfer tir yn y tymor byr ar dir gyferbyn â'r gweithfeydd mwynau yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990.

3. Yn ddarostyngedig i erthyglau 4, 5, 6 a 7, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darn o lwybr ceffylau a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r llwybr ceffylau er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Weinidogion Cymru yn unol â'r apêl ar ***** o dan y cyfeirnod APP/U/6945/A/17/3187180.

Prifordd Newydd

4. Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cynghorau, y darnau newydd o lwybr ceffylau a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd i'w defnyddio yn lle'r rhai presennol, ac mae'r priffyrrd hyn, at ddibenion Deddf Prifyrdd 1980(2), i fod yn briffyrrd i'w cynnal a'u cadw ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor perthnasol fydd yr awdurdod priffyrrd sy'n gyfrifol amdanynt fel y nodir yn Atodlen 2.

Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Prifordd.

5. Ni chaniateir cau'r darn o lwybr ceffylau a ddisgrifir yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y Gweithiwr Mwynau wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cynghorau, blaniaw sy'n dangos sut y mae'r darnau o lwybr ceffylau i'w cau;

(b) hyd nes y bydd y Gweithiwr Mwynau wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cynghorau, y darnau newydd o lwybr ceffylau a ddisgrifir yn Atodlen 2;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y Gweithiwr Mwynau wedi hysbysu'r Cynghorau yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r darn o lwybr ceffylau er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cynghorau wedi ysgrifennu at y Gweithiwr Mwynau i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

(2) 1980 p. 66

Stopping Up

2. The Welsh Ministers are satisfied that it is necessary to stop up the length of bridleway to enable minerals to be worked by surface working and for short-term land remediation works to be carried out on land adjacent to the mineral workings in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act.

3. Subject to articles 4, 5, 6 and 7 the Welsh Ministers authorise the stopping up of the length of bridleway described in Schedule 1 and shown by zebra hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable the development described in Schedule 3 to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Welsh Ministers pursuant to the appeal on ***** under reference number APP/U/6945/A/17/3187180.

New Highway

4. There must be created, to the reasonable satisfaction of the Councils; the new lengths of bridleway described in Schedule 2 and shown by stipple marking on the deposited plan which are to be highways maintainable at the public expense for the purposes of the Highways Act 1980(2) for use as replacement and the relevant Council is to be the highway authority responsible for them as indicated in Schedule 2.

Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up.

5. The length of bridleway described in Schedule 1 must not be stopped up until:-

(a) the Mineral Worker has provided, to the reasonable satisfaction of the Councils, plans showing how the lengths bridleway is to be stopped up;

(b) the Mineral Worker has provided the new lengths of new bridleway described in Schedule 2 to the reasonable satisfaction of the Councils;

(c) the development described in Schedule 3 to this Order has commenced and the Mineral Worker has informed the Councils in writing of the necessity to stop up the length of bridleway to allow the development to proceed; and

(d) the Councils have confirmed in writing to the Mineral Worker that paragraphs (a), (b) and (c) are satisfied.

(2) 1980 c.66

Ymgynwyseddol a Darparwyr

6. Pan fo gan ymgynherwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y llwybr ceffylau, ynddo, arno, drosto, ar ei hyd neu ar ei draws yn union cyn cau'r darn o lwybr ceffylau yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgynherwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r llwybr ceffylau.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 201-

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darn o lwybr ceffylau sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan o Lwybr Ceffylau BR107 o bwynt wrth ei gyffordd â thrac coedwigaeth di-ddosbarth a Llwybr Ceffylau BR106, ac y rhoddir y cyfeirnod A iddi ar y plan a adneuwyd am bellter o 303 o fetrau tua'r gogledd ac yna tua'r gogledd-orllewin hyd at bwynt ar y ffin rhwng Cynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Blaenau Gwent a leolir ar safle toriad Tirpentwys ym Mwrdeistref Sirol Torfaen ac y rhoddir y cyfeirnod C iddo ar y plan a adneuwyd.

Statutory Undertakers and Providers

6. Where immediately before the length of bridleway is stopped up, there is under, in, on, over, along or across the bridleway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Duration of this Order

7. If the development in Schedule 3 to this Order has not begun within the relevant period specified in Part 3 of the 1990 Act as being the duration of the planning permission or permission is revoked before the end of that period, this Order ceases to have effect upon the cessation of the planning permission.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated 201-

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

SCHEDULES

SCHEDULE 1

(All measurements are approximate)
Description of the length of bridleway, to be
stopped up under this Order

Part of Bridleway BR107 from a point at its junction with the unclassified forestry track and Bridleway BR106, and given the reference A on the deposited plan for a distance of 303 metres in a northerly and then north-westerly direction to a point at the boundary between the County Borough Councils of Torfaen and Blaenau Gwent located at the Tir Pentwys cut site in the County Borough of Torfaen and given the reference C on the deposited plan.

ATODLEN 2

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darnau o lwybr ceffylau newydd sydd i'w darparu yn lle'r rhai presennol o dan y Gorchymyn hwn

Darn newydd o lwybr ceffylau i wneud estyniad i'r Llwybr Ceffylau Rhif BW337/33 presennol, o bwynt wrth ei gyffordd â Llwybr Ceffylau BR107 a Llwybr Ceffylau BR106 a'r trac coedwigaeth di-ddosbarth, ac y rhoddir y cyfeirnod A iddo ar y plan a adneuwyd am bellter o 87 o fetrau tua'r gogledd-orllewin hyd at bwynt ar y ffin rhwng Cynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Blaenau Gwent a leolir ym Mwrdeistref Sirol Torfaen ac y rhoddir y cyfeirnod **A1** iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o lwybr ceffylau, i wneud estyniad i'r Llwybr Ceffylau Rhif BW337/33 presennol, o bwynt y rhoddir y cyfeirnod **B** iddo ar y plan a adneuwyd a pharhau tua'r de-ddwyrain am bellter o 431 o fetrau hyd at bwynt ar y ffin rhwng Cynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Blaenau Gwent, a leolir yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac y rhoddir y cyfeirnod **A1** iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 3

Y Datblygiad

Adfer hen weithfeydd mwyngloddio brig, tynnu agregau eilaidd ac adeiladu ffordd fynediad newydd sy'n effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus yn Nhirpentwys, Torfaen.

SCHEDULE 2

(All measurements are approximate)

Description of the lengths of new bridleway to be provided as replacement under this Order

A new length of bridleway to provide an extension to existing Bridleway No. BW337/33, from a point at the junction of Bridleway BR107 and the Bridleway BR106 and the unclassified forestry track, and given the reference **A** on the deposited plan for a distance of 87 metres in a north-westerly direction to a point at the boundary between the County Borough Councils of Torfaen and Blaenau Gwent located in the County Borough Council of Torfaen and given the reference **A1** on the deposited plan.

A new length of bridleway, to provide an extension to existing Bridleway No. BW337/33, from a point given the reference **B** on the deposited plan and continuing in a south-easterly direction for a distance of 431 metres to a point at the boundary between the County Borough Councils of Torfaen and Blaenau Gwent, located in the County Borough Council of Blaenau Gwent and given the reference **A1** on the deposited plan.

SCHEDULE 3

The Development

Reclamation of former opencast workings, recovery of secondary aggregates and construction of new access road affecting public rights of way at Tir Pentwys, Torfaen.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (LLWYBR CEFFYLAU (BR107) AR DIR YN NHIRPENTWYS (BWRIAD I ADFER HEN WEITHFEYDD MWYNGLODDIO BRIG YN NHIRPENTWYS) TORFAEN) 201-

Mae Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 253 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“y Ddeddf”), yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o’r Ddeddf i awdurdodi cau’r darn o lwybr ceffylau a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Hysbysiad hwn ac i ddarparu’r darnau newydd o lwybr ceffylau a ddisgrifir yn Atodlen 2 yn lle’r llwybr ceffylau presennol.

Os caiff y Gorchymyn ei wneud, awdurdodir cau’r llwybr ceffylau er mwyn mwyngloddio mwynau fel rhan o’r broses o adfer hen weithfeydd mwyngloddio brig a thynnu agregau eilaidd yn Nhirpentwys, Torfaen fel y'i disgrifir yn Atodlen 3 i’r Hysbysiad hwn os rhoddir caniatâd cynllunio. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrrd (Llwyr Ceoffylau (BR107) ar Dir yn Nhirpentwys (Bwriad i Adfer Hen Weithfeydd Mwyngloddio Brig yn Nhirpentwys) Torfaen) 201- (“y Gorchymyn”), os caiff ei wneud, yn cael effaith yn ystod cyfnod y caniatâd cynllunio ac yn peidio â chael effaith os daw’r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â’r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod yr 28 o ddiwrnodau o 13 Gorffennaf 2018 ymlaen, gellir edrych ar gopiâu o’r Gorchymyn draft a’r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Pont-y-pŵl, Hanbury Road, Pont-y-pŵl, NP4 6JL neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o’r cyfeiriad isod gan ddyfynnu’r cyfeirnod qA1343288.

O fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau, caiff unrhyw berson wrthwynebu i’r Gorchymyn gael ei wneud drwy hysbysu: Y Gangen Orchmyntion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o’r broses ymgynghori, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi a’ch data personol yn cael eu trosglwyddo i’r ceisydd/datblygwr ac, os oes angen, i’r awdurdod priffyrrd lleol i’w galluogi hwy i ymateb i chi. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny’n angenrheidiol er mwyn ymdrin â’r materion a godwyd. Pan fo’r Gorchymyn yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (“YC”), caiff pob gohebiaeth ei chopio i Arolygydd yr

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (BRIDLEWAY (BR107) ON LAND AT TIR PENTWYS (PROPOSED RECLAMATION OF FORMER OPEN CAST WORKINGS AT TIR PENTWYS) TORFAEN) ORDER 201-

The Welsh Ministers, in accordance with section 253 of the Town and Country Planning Act 1990 (“the Act”), propose to make an Order under section 247 of the Act to authorise the stopping up of a length of bridleway described in Schedule 1 to this Notice and to provide the new lengths of bridleway described in Schedule 2 as replacement bridleway.

If the Order is made, the stopping up will be authorised in order to enable the working of minerals as part of the reclamation of former opencast workings and recovery of secondary aggregates at Tir Pentwys, Torfaen as described in Schedule 3 to this Notice to be carried out if planning permission is granted. The Stopping Up of Highways (Bridleway (BR107) on Land at Tir Pentwys (Proposed Reclamation of Former Open Cast Workings at Tir Pentwys) Torfaen) Order 201- (“the Order”), if made, will take effect upon the implementation of the planning permission and shall cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

During 28 days from 13 July 2018, copies of the draft Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Pontypool Library, Hanbury Road, Pontypool, NP4 6JL or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1343288.

Within the period of 28 days, any person may, by notice to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ, object to the making of the Order.

If you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult persons and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process, the information you have provided and your personal data will be passed to the applicant/developer and, if necessary, to the local highway authority to enable them to respond to you. The Welsh Government will only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. Where the Order becomes subject to a Public Inquiry (“PI”), all correspondence is copied to the Inspector of the Inquiry and is available in the PI Library when it becomes publicly available. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when

Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copio'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Deddfwriaeth ddrafft/Offerynnau Anstatudol Drafft/Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchymion Cau).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmyion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Draft Legislation/Draft Non Statutory Instruments/Town and Country Planning Act Stopping Up Orders).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darn o lwybr ceffylau sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan o Lwybr Ceoffylau BR107 o bwynt wrth ei gyffordd â thrac coedwigaeth di-ddosbarth a Llwybr Ceoffylau BR106, ac y rhoddir y cyfeirnod A iddi ar y plan a adneuwyd am bellter o 303 o fetrau tua'r gogledd ac yna tua'r gogledd-orllewin hyd at bwynt ar y ffin rhwng Cynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Blaenau Gwent a leolir ar safle toriad Tirpentwys ym Mwrdeistref Sirol Torfaen ac y rhoddir y cyfeirnod C iddo ar y plan a adneuwyd.

SCHEDULES

SCHEDULE 1

(All measurements are approximate)

Description of the length of highwaybridleway, to be stopped up under this Order

Part of Bridleway BR107 from a point at its junction with the unclassified forestry track and Bridleway BR106, and given the reference A on the deposited plan for a distance of 303 metres in a northerly and then north-westerly direction to a point at the boundary between the County Borough Councils of Torfaen and Blaenau Gwent located at the Tir Pentwys cut site in the County Borough of Torfaen and given the reference C on the deposited plan.

ATODLEN 2

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darnau o lwybr ceffylau newydd sydd i'w darparu yn lle'r rhai presennol o dan y Gorchymyn hwn

Darn newydd o lwybr ceffylau i wneud estyniad i'r Llwybr Ceffylau Rhif BW337/33 presennol, o bwynt wrth ei gyffordd â Llwybr Ceffylau BR107 a Llwybr Ceffylau BR106 a'r trac coedwigaeth di-ddosbarth, ac y rhoddir y cyfeirnod **A** iddo ar y plan a adneuwyd am bellter o 87 o fetrau tua'r gogledd-orllewin hyd at bwynt ar y ffin rhwng Cynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Blaenau Gwent a leolir yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac y rhoddir y cyfeirnod **A1** iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o lwybr ceffylau, i wneud estyniad i'r Llwybr Ceffylau Rhif BW337/33 presennol, o bwynt y rhoddir y cyfeirnod **B** iddo ar y plan a adneuwyd a pharhau tua'r de-ddwyrain am bellter o 431 o fetrau hyd at bwynt ar y ffin rhwng Cynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Blaenau Gwent, a leolir yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac y rhoddir y cyfeirnod **A1** iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 3

Y Datblygiad

Adfer hen weithfeydd mwyngloddio brig, tynnau agregau eilaidd ac adeiladu ffordd fynediad newydd sy'n effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus yn Nhirpentwys, Torfaen, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd yn unol â'r apêl o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Weinidogion Cymru ar ***** o dan y cyfeirnod APP/U/6945/A/17/3187180.

SCHEDULE 2

(All measurements are approximate)

Description of the lengths of new bridleway to be provided as replacement under this Order

A new length of bridleway to provide an extension to existing Bridleway No. BW337/33, from a point at the junction of Bridleway BR107 and the Bridleway BR106 and the unclassified forestry track, and given the reference **A** on the deposited plan for a distance of 87 metres in a north-westerly direction to a point at the boundary between the County Borough Councils of Torfaen and Blaenau Gwent located in the County Borough Council of Torfaen and given the reference **A1** on the deposited plan.

A new length of bridleway, to provide an extension to existing Bridleway No. BW337/33, from a point given the reference **B** on the deposited plan and continuing in a south-easterly direction for a distance of 431 metres to a point at the boundary between the County Borough Councils of Torfaen and Blaenau Gwent, located in the County Borough Council of Blaenau Gwent and given the reference **A1** on the deposited plan.

SCHEDULE 3

The Development

Reclamation of former opencast workings, recovery of secondary aggregates and construction of new access road affecting public rights of way at Tir Pentwys, Torfaen, in accordance with planning permission granted pursuant to the appeal under Part 3 of the 1990 Act by the Welsh Ministers on ***** under reference number APP/U/6945/A/17/3187180.

